Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Ansawdd a Methodoleg: Y Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2023/24

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/17/2025 - Atodiad A |
| **Dyddiad:** | 27 Tachwedd 2025 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol (gweler newid yn y statws ystadegau achrededig) |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | **Gwybodaeth ansawdd a chynhyrchu am y cyhoeddiad 'Y Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2023/24'** |
| **Thema:** | Addysg Uwch, Y Gymraeg, Cyfrwng Cymraeg |
| **Ffynhonnell:** | Cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys


Cyd-destun ........ 2
  Cyffredinol ........ 2
  Cefndir polisi ........ 2
Ffynonellau data ........ 3
  Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ........ 3
  Cofnod Staff HESA ........ 4
Cwmpas a diffiniadau ........ 5
  Myfyrwyr ........ 5
  Staff ........ 5
Talgrynnu ........ 6
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd ........ 6
  Perthnasedd ........ 6
  Cywirdeb ........ 7
  Amseroldeb a phrydlondeb ........ 7
  Hygyrchedd ac eglurder ........ 7
  Cymharedd a chydlyniad ........ 8
Datganiad cydymffurfio â’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ........ 8
  Newid yn y statws ystadegau achrededig ........ 9

# Cyd-destun

## Cyffredinol

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn crynhoi data ar:

- Nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn Gymraeg.
- Gallu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i siarad Cymraeg.
- Gallu staff i addysgu yn Gymraeg a pha un a ydynt wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg.

## Cefndir polisi

Un o flaenoriaethau allweddol Medr yw hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gennym rôl arwyddocaol o ran meithrin diwylliant bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu, ac o ran cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Byddwn yn ysgogi galw am ddysgu a chyfranogiad mewn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a byddwn yn sicrhau bod digon o ddarpariaeth i ateb y galw hwnnw. Bydd ein gwaith cynllunio'n annog yr holl ddysgwyr i ddatblygu, cynnal a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu taith mewn addysg drydyddol, gan eu harfogi i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle ac mewn cyd-destunau anffurfiol.

### Cymraeg 2050

Cyhoeddwyd strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr yn 2017 ac fe gyhoeddwyd Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021-2026 yn 2021.

Ynghyd â thargedau i gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chamau gweithredu i'w galluogi i gamu ymlaen trwy eu haddysg orfodol ac ôl-orfodol trwy gyfrwng y Gymraeg, mae Cymraeg 2050 hefyd yn cynnwys targedau i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

### Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio gyda darparwyr i hybu, datblygu a chynnal cyfleoedd cyfrwng Cymraeg mewn addysg drydyddol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu capasiti darparwyr i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a darparu ystod o ysgoloriaethau i annog dysgwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Coleg wedi cael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru i roi cyngor i Medr i'n helpu i gyflawni ein dyletswydd i hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Medr a'r Coleg wedi cydlofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth, sy'n ffurfioli'r berthynas hon ac yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i gyrraedd ein nodau cyffredin.

# Ffynonellau data

## Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Mae cofnod Myfyrwyr HESA wedi bod yn cael ei gasglu ers 1994/95 gan ddarparwyr AU sy'n tanysgrifio ledled gweinyddiaethau datganoledig y Deyrnas Unedig. Mae'r data a gesglir fel rhan o'r cofnod Myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan amryw randdeiliaid.

Mae HESA yn darparu crynodeb o'r broses casglu data ar wefan HESA, gan gynnwys yr holl reolau ansawdd a ddefnyddir.

## Nodiadau Ansawdd ar gyfer Cofnod Myfyrwyr HESA 2022/23

Cafodd Cofnod Myfyrwyr HESA 2022/23 ei gasglu gan ddefnyddio system casglu data a model data newydd a ddarparwyd gan y rhaglen drawsnewid 'Dyfodol Data'. Roedd y system a'r model newydd yn newid sylweddol i'r broses gasglu ac roedd nifer uwch o heriau a materion o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

O ganlyniad, roedd nifer fwy o faterion ansawdd gyda data'r cofnod myfyrwyr o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Fe gyhoeddodd Jisc, y mae HESA yn rhan ohono, adroddiad ansawdd i ddarparu trosolwg o ansawdd data'r casgliad a sut yr aseswyd yr ansawdd hwn.

Ar gyfer y cyhoeddiad hwn yr effeithiau mwyaf nodedig ar ansawdd data oedd:

- Cynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr a astudiodd fwy na sero ond llai nag un credyd yn Gymraeg. Yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr teimlwyd fod hyn yn gysylltiedig â materion gyda'r casgliad data yn hytrach nag yn wir adlewyrchiad o fwy o ddarpariaeth yn Gymraeg. Fe effeithiodd hyn ar nifer y myfyrwyr a fyddai wedi cael eu dosbarthu fel rhai a oedd wedi astudio 'rhai credydau yn Gymraeg'. I ddarparu cyfres amser fwy cymaradwy rydym wedi newid y geiriad wedi astudio rhai credydau yn Gymraeg i wedi astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg.

- Cynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr y mae eu gallu i siarad Cymraeg yn anhysbys. Roedd newidiadau sylweddol i sut y casglwyd gwybodaeth am y gallu i siarad Cymraeg yn 2022/23 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ac o ganlyniad fe gynyddodd nifer y rhai anhysbys mewn rhai darparwyr. Er gwaethaf y cynnydd yn y rhai anhysbys, rydym ni'n teimlo bod y data'n dal o werth ac o ddefnydd, felly mae'r data wedi cael ei gynnwys. Mae nifer y rhai anhysbys wedi eu cynnwys ac fe wneir sylwadau arnynt fel bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r data'n briodol. Byddem yn gobeithio y bydd ansawdd y data hwn yn gwella wrth i'r casgliad data newydd ymsefydlu a byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr i ddeall unrhyw faterion mewn perthynas â hyn.

- Fe gyflwynodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yr holl rai nad oeddent yn siarad Cymraeg fel siaradwyr Cymraeg â hyfedredd anhysbys mewn camgymeriad. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Brifysgol mae'r holl fyfyrwyr yn y categori siaradwyr Cymraeg â hyfedredd anhysbys wedi cael eu hailddosbarthu'n rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg gan Medr at ddiben y cyhoeddiad hwn.

## Nodiadau Ansawdd ar gyfer Cofnod Myfyrwyr HESA 2023/24

Fe wnaeth ansawdd y data yng nghofnod Myfyrwyr HESA 2023/24 wella o'i gymharu â 2022/23. Fodd bynnag roedd rhai problemau ansawdd data i'w nodi o hyd:

**Credydau a astudiwyd yn Gymraeg**

- Mae newidiadau o ran sut y cyfrifir y gyfran o fodiwl a astudiwyd yn Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi cael effaith sylweddol ar nifer y cofrestriadau gyda niferoedd bychain o gredydau yn Gymraeg. Golyga hyn fod gostyngiad mawr yn nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 neu o leiaf 5 o gredydau yn Gymraeg nad yw'n llwyr adlewyrchu newid o ran sut y darperir cyrsiau.

**Gallu i siarad Cymraeg**

- Roedd gan Brifysgol De Cymru broblemau gyda'u data hyfedredd Cymraeg yn 2022/23. Er bod rhai problemau wedi cael eu datrys a bod ansawdd y data wedi gwella, mae problemau gyda meddalwedd wedi golygu bod rhai myfyrwyr yn cael eu dychwelyd â chofnodion lluosog am eu gallu i siarad Cymraeg sy'n gwrthddweud ei gilydd. Mae'r myfyrwyr hyn wedi cael eu cofnodi fel rhai â gallu anhysbys yn y cyhoeddiad hwn.

- Roedd gan y Brifysgol Agored nifer uchel o fyfyrwyr â hyfedredd anhysbys o ran siarad Cymraeg yn 2022/23 a 2023/24. Er bod gan y Brifysgol Agored lefelau uchel o fyfyrwyr â hyfedredd anhysbys mewn blynyddoedd cynharach, roedd nifer debyg o fyfyrwyr a gofnodwyd fel rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg; fodd bynnag, nid felly y mae hi mwyach.

- Mae'r cyfuniad o'r problemau uchod yn golygu bod y gallu i siarad Cymraeg ar gyfer ychydig dros chwarter y cofrestriadau myfyrwyr yn anhysbys.

## Cofnod Staff HESA

Mae cofnod Staff HESA wedi bod yn cael ei gasglu ers 1994/95 gan ddarparwyr addysg uwch sy'n tanysgrifio ledled gweinyddiaethau datganoledig y Deyrnas Unedig.

Ceir crynodeb o'r broses casglu data ar wefan HESA.

## Nodyn Ansawdd ar gyfer Cofnod Staff HESA 2022/23

Nid oedd y data a gyflwynwyd gan Brifysgol Caerdydd i gofnod staff 2022/23 yn cynnwys unrhyw staff fel rhai a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Brifysgol cadarnhawyd mai gwall oedd hyn ac fe ddarparodd y Brifysgol fanylion staff addysgu academaidd i Medr a ddylai fod wedi cael eu dychwelyd fel rhai a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg. Mae'r cyhoeddiad hwn yn defnyddio'r wybodaeth wedi ei chywiro ar gyfer y newidyn hwn yn lle'r data a gyflwynwyd i gofnod HESA 2022/23.

### Nodyn Ansawdd ar gyfer Cofnod Staff HESA 2023/24

Roedd y data a gyflwynwyd gan Brifysgol Bangor i gofnod staff 2023/24 yn cynnwys nifer is o lawer nag arfer o staff sy'n addysgu yn Gymraeg. Canfuwyd fod hyn wedi digwydd oherwydd gwall gyda'r system yn hytrach na newid go iawn. Darparodd Prifysgol Bangor wybodaeth wedi'i chywiro i Medr ei defnyddio yn y cyhoeddiad hwn.

Bu gostyngiad mawr yn nifer y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Roedd hyn yn gysylltiedig â newid yn sut y cesglir y data, gyda chynnydd yn y rhai a ddychwelir fel 'Gwybodaeth heb ei cheisio' ar gyfer y newidyn hwn. Disgwylir y bydd ansawdd y data ar gyfer hyn yn gwella yn y dyfodol.

## Cwmpas a diffiniadau

### Myfyrwyr

Mae'r ystadegau'n cwmpasu myfyrwyr sy'n rhan o boblogaeth gofrestru safonol addysg uwch HESA. Ceir rhagor o wybodaeth am boblogaeth gofrestru safonol HESA yn y diffiniadau o fyfyrwyr ar wefan HESA.

Bob tro y defnyddir 'myfyrwyr' yn y cyhoeddiad hwn mae hynny'n cyfeirio at 'gofrestriadau myfyrwyr'. Cyfrif o bob cofrestriad ar gyfer cwrs yw hyn. Os oedd myfyriwr wedi ei gofrestru mewn dau gwrs gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

### Nifer y credydau a astudiwyd trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer pob myfyriwr wedi cael ei gyfrif fesul modiwl. Er enghraifft, os gwnaeth myfyriwr astudio hanner modiwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel bod wedi astudio 10 credyd yn Gymraeg. Cafodd nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar draws pob modiwl ei symio i roi cyfanswm nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg.

### Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE)

Mae'r holl gofrestriadau myfyrwyr yn niferoedd cyfwerth â pherson llawn. Mae'r niferoedd cyfwerth â pherson llawn yn rhannu myfyrwyr ar draws y pynciau y maent yn eu hastudio, ni waeth beth fo cyfanswm yr amser mae myfyriwr yn astudio. Mae myfyriwr cydanrhydedd rhan-amser, sy'n astudio hanner Mathemateg a hanner Cyfrifiadura, yn cael ei gyfrif fel 0.5 FPE mewn Mathemateg a 0.5 FPE mewn Cyfrifiadura, yr un fath ag y byddai myfyriwr cydanrhydedd amser llawn yn cael ei gyfrif.

### Staff

Mae'r ystadegau'n cwmpasu staff addysgu academaidd nad ydynt ar gontractau annodweddiadol.

### Staff annodweddiadol

Staff annodweddiadol yw'r rhai nad yw eu trefniadau gweithio'n barhaol, y mae eu trefniadau gweithio'n cynnwys perthnasoedd cyflogaeth cymhleth a/neu'n golygu gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol.

### Cyfwerth â pherson llawn (FPE)

Gall fod gan staff fwy nag un contract a gall pob contract gynnwys mwy nag un gweithgaredd gwahanol. Mae cyfrifau staff wedi cael eu rhannu ymhlith eu gweithgareddau yn gymesur â'r FTE a ddatganwyd ar gyfer pob gweithgaredd. Mae hyn yn arwain at gyfrifau cyfwerth â pherson llawn (FPE). Caiff cyfrifau FPE staff eu cyfrifo ar sail gweithgareddau contract a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y cyfnod adrodd.

### Cyfwerth ag amser llawn (FTE)

Mae cyfwerth ag amser llawn (FTE) yr un fath â'r hyn a gofnodwyd yn y contract ac mae'n mesur cywerthedd ag amser llawn dros y cyfnod adrodd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

### Staff sy'n addysgu yn Gymraeg

Mae nifer y staff sy'n addysgu yn Gymraeg yn gyfrif o staff addysgu academaidd ag o leiaf un contract academaidd sy'n cynnwys peth addysgu yn Gymraeg.

## Talgrynnu

Mae ffigyrau wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Caiff cyfansymiau eu cyfrifo ar ffigyrau heb eu talgrynnu ac yna eu talgrynnu i'r 5 agosaf felly efallai na fyddant yn cyfateb i swm y rhannau cyfansoddol.

Caiff canrannau eu cyfrifo gan ddefnyddio'r ffigyrau heb eu talgrynnu ac yna eu talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Eto fe all hyn olygu nad yw'r canrannau yn y datganiad hwn yn cyfateb i'r hyn y byddech yn ei gael o'r ffigyrau wedi eu talgrynnu. Os yw canran yn cael ei chyfrifo lle mae'r enwadur yn llai na 22.5 yna ni ddangosir y ganran.

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

### Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau o fewn Medr, Llywodraeth Cymru a chan eraill i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Rhai o'r defnyddwyr allweddol yw:

- Swyddogion ac aelodau o'r Bwrdd yn Medr
- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y Senedd
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Adrannau eraill y llywodraeth
- Sefydliadau Addysg Bellach a chyrff cynrychioliadol
- Myfyrwyr, ymchwilwyr, ac academyddion
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau

## Cywirdeb

Mae rhai o'r meysydd data allweddol a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn yn dibynnu ar asesiad unigolion neu ddarparwyr a fydd yn effeithio ar gywirdeb y data.

Mae'r data a gesglir ar allu myfyrwyr i siarad Cymraeg yn dibynnu ar hunanasesiad gan y myfyriwr. Mae hyn yn golygu y bydd peth anghysondeb rhwng myfyrwyr o ran sut y byddent yn asesu eu gallu i siarad Cymraeg.

Mae cyfrifo nifer y credydau y mae myfyriwr yn eu hastudio yn Gymraeg ar gyfer pob modiwl yn dibynnu ar y newidynnau LANGPCNT a PGRLANGPCNT yng nghofnod myfyrwyr HESA. Mae'r newidynnau hyn yn casglu'r gyfran o'r modiwl a astudiwyd yn Gymraeg. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad y darparwyr o ba gyfran sy'n cael ei hastudio yn Gymraeg. Fodd bynnag, gall y modd y gwneir hyn amrywio rhwng darparwyr ac arwain at rai anghysonderau. Er enghraifft, gall un darparwr asesu bod gan fodiwl elfen sy'n cael ei hastudio yn Gymraeg os darperir deunyddiau dwyieithog ar gyfer myfyrwyr, tra bydd darparwr arall o bosibl dim ond yn asesu bod gan fodiwlau gyfran a astudiwyd trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn cael eu haddysgu'n weithredol yn Gymraeg. Mae Medr yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu fframwaith cyson i ddarparwyr ar gyfer yr asesiad hwn i wella cysondeb yn y dyfodol.

Gall fod newidiadau dros amser mewn darparwr unigol hefyd o ran sut y gwneir y cyfrifiad hwn gan arwain at anghysonderau dros amser.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Ceir oedi fel arfer cyn y gellir cyhoeddi data oherwydd yn hanesyddol bod y broses o gasglu data myfyrwyr yn cael ei chwblhau oddeutu 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd. Mae angen amser wedyn i ddadansoddi'r data a pharatoi'r cyhoeddiad.

Cyhoeddwyd datganiad 2022/23 yn y gyfres hon ym mis Mawrth 2025. Roedd hyn yn hwyrach nag arfer oherwydd cyfuniad o argaeledd hwyr data myfyrwyr 2022/23, a bod Medr wrthi'n sefydlu prosesau i gynhyrchu Ystadegau Swyddogol ers dod yn weithredol ym mis Awst 2024.

Mae hyn wedi cael effaith ddilynol ar amseriad y datganiad hwn sy'n hwyrach na phan y'i cyhoeddwyd fel arfer mewn blynyddoedd cynharach. Bwriedir cynllunio ar gyfer cyhoeddi datganiad 2024/25 ar yr ystadegau hyn yn gynharach yn 2026.

## Hygyrchedd ac eglurder

Gwneir cyhoeddiad rhag blaen ynghylch y datganiad ystadegol hwn ac yna fe'i cyhoeddir ar wefan Medr.cymru.

Mae'r data ar gael mewn taenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ar wefan Medr. Mae dadansoddiadau pellach o'r data ar gael ar StatsCymru hefyd.

### Cymharedd a chydlyniad

#### Darparwyr sydd wedi'u cynnwys yn y data

I chwe darparwr, 2023/24 oedd y flwyddyn gyntaf iddynt gyflwyno data i gofnod Myfyrwyr HESA. Y darparwyr hyn oedd:

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Y Ganolfan Technoleg Amgen
- Coleg Cambria
- Coleg Gwent
- Athrofa Padarn Sant
- Coleg Diwinyddiaeth Union

Mae'r darparwyr hyn yn gyfrifol am gyfran gymharol fach o gofrestriadau ar draws y sector, ond bydd eu cynnwys yn nata 2023/24 yn cael effaith fach os cymharir y data o flynyddoedd gwahanol.

#### Cymharu â data arall

Mae cynnwys y bwletin hwn yn golygu nad oes ystadegau cymaradwy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer gwledydd eraill yn y DU. Mae diffiniadau'n gyson â datganiadau addysg uwch eraill, ac eithrio ar gyfer dadansoddiadau pynciol a gyfrifir fesul modiwl yma i ymgorffori'r wybodaeth cyfrwng Cymraeg.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

#### Dibynadwyedd

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'n polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

#### Ansawdd

Daw'r data o gofnodion Myfyrwyr a Staff HESA sy'n casglu data gan ddarparwyr addysg uwch. Pan gyflwynir y data rhaid iddo fodloni rhai rheolau dilysu penodol. Pan fo'r ystadegau'n cael eu cynhyrchu fe gyflawnir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

## Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru, a gallu myfyrwyr i siarad Cymraeg.

## Newid yn y statws ystadegau achrededig

Arferai'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a adwaenir bellach fel Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan bod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi cael ei ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â'r systemau a phrosesau ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau a ddefnyddid gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r ystadegwyr sy'n cynhyrchu'r ystadegau'n cynnwys ystadegwyr a arferai gynhyrchu ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd OSR yn asesu'r prosesau sydd gan Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n ateb y gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**